CYDBWYLLGOR PROSIECT GWYRDD

DYDD MAWRTH, 19 MAI 2020

Yn bressenol: Cynghorydd (Cadeirydd)

Cynghorwyr Weaver, Gordon, Murphy, Pratt, Jeavons, King a/ac Williams

16 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Michael, George a Truman

17 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

18 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.

19 : MATERION YN CODI O'R COFNODION

Tynnu'r Cynghorydd Gordon oddi ar restr y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol.

20 : ADRODDIAD DIWEDDARU'R PROSIECT GWYRDD I'R CYDBWYLLGOR

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau i riant-gwmni Viridor, Pennon Group, gyoheddi ym mis Mawrth eleni y cytunwyd i werthu Viridor i KKR, cronfa buddsoddi seilwaith. Disgwylir i'r trafodyn gael ei gwblhau yn ystod yr haf eleni.

Yn ystod 2019/20 anfonwyd cyfanswm o 170,071.63 tunnell o wastraff gweddilliol i Gontract Prosiect Gwyrdd a chafodd y cyfan ei brosesu ym Mharc Trident ERF oedd yn 45% o fewnbwn cyfan y cyfleuster. Roedd hyn yn erbyn proffil a amcanestynnwyd o 168,680 tunnell.

Swm y Gwastraff Contract a Anfonwyd gan Bob Awdurdod Partner yn 2019/20

Awdurdod	Tunelledd yn 2019/20
Caerdydd	77,873
Caerffili	31,642
Sir Fynwy	17,310
Casnewydd	27,111
Bro Morgannwg	16,316
Cyfanswm y Prosiect Gwyrdd	**170,072**

O'r Gwastraff Contract Prosiect Gwyrdd a anfonwyd, ailgylchwyd 26,872 tunnell o ludw gwaelod y llosgydd, ailgylchwyd 1,166 tunnell o'r gweddillion rheoli llygredd aer, ailgylchwyd 3,364 tunnell o fetelau fferrus ac ailgylchwyd 455 o dunelli eraill o fetelau eraill. Yn ystod y flwyddyn anfonwyd 16.24 o dunelli o wastraff contract i safleoedd tirlenwi a chafodd 776 tunnell o weddillion rheoli llygredd aer eu tirlenwi.

Yn 2019/20 cyflawnodd Viridor bob un o'r pum Targed Allweddol:

Targed Allweddol	Canran Darged	Canran Wirioneddol
Canran Darged Warantedig y Contractwr o ran Gwastraff Tirlenwi Nas Proseswyd	0.0%	0.0%
Canran Uchaf Warantedig y Contractwr o ran Gwastraff Contract a Anfonir i Safle Tirlenwi	2.1%	0.47%
Canran Darged Warantedig y Contractwr o ran Ailgylchu Lludw Gwaelod Llosgydd	100.0%	100.0%
Canran Darged Warantedig y Contractwr o ran Gwyro Gwastraff Dinesig Bioddiraddiadwy	100.0%	100.0%
Canran Darged Warantedig y Contractwr o ran Lludw Gwaelod Llosgydd Nas Proseswyd	0.0%	0.0%

Yn un o ofynion cymorth refeniw gan LlC, mae'n ofynnol i'r cyfleuster fod yn barod o ran Gwres a Phŵer Cyfunol ac i gyflawni a chynnal statws R1. Cyflwynodd Parc Trident yr adroddiad cam 3 terfynol i Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda ffigur blynyddol o 0.78, sy'n fwy na'r 0.65 sy'n ofynnol a 0.02 yn uwch na'r llynedd. Mae hyn yn dosbarthu Parc Trident fel cyfleuster adfer.

Mae lludw Gwaelod y Llosgydd yn cael ei ailgylchu ar hyn o bryd gan Days Aggregates yn eu cyfleuster yn Avonmouth. Mae cyfran o Ludw Gwaelod y Llosgydd yn dal i gael ei gludo ar y drenau.

Ar hyn o bryd mae'r Gweddillion Rheoli Llygredd Aer naill ai'n cael ei ailgylchu gan O.C.O. Technology Ltd yn eu cyfleuster yn Avonmouth neu'n cael eu tirlenwi gan Grundon (Waste) Ltd yn eu cyfleuster yn Swydd Gaerloyw.

Gan gyfeirio at y Gronfa Budd Cymunedol a Chymunedol, dywedwyd wrth yr Aelodau fod Panel Gronfa Budd Cymunedol, y Prosiect Gwyrdd, wedi cyfarfod dair gwaith yn ystod 2019/20, lle dyfarnwyd cyfanswm o £43,846.93 rhwng saith ar hugain o fentrau cymunedol wedi'u lleoli yn ardaloedd Awdurdod Lleol Partneriaeth y Prosiect Gwyrdd.

Roedd y dadansoddiad o Ddyfarniadau Cronfa Gymunedol y Prosiect Gwyrdd a Viridor ar gyfer 2019/20 fel a ganlyn:

Awdurdod	Nifer y Prosiectau	Cyfanswm y Gwerth
Cyngor Sir Caerffili	2	£2,250.00
Cyngor Caerdydd	11	£17,354.31
Cyngor Sir Fynwy	2	£4,692.77
Cyngor Dinas Casnewydd	7	£10,986.93
Cyngor Bro Morgannwg	4	£7,764.00
Prosiectau sy'n gweithio ar draws pob ardal	1	£798.92

Hefyd rhoddwyd i'r Aelodau Ddadansoddiad o Ddyfarniadau Cronfa Budd Cymunedol y Prosiect Gwyrdd a Viridor ar gyfer 2019/20, fesul Awdurdod Lleol.

Gellir gweld manylion y meini prawf ariannu a sut i wneud cais yn: https://viridor.co.uk/our-operations/energy/energy-recovery-facilities/cardiff-erf/community

Yn ystod 2019/20 76 oedd nifer y grwpiau'n ymweld â Pharc Trident, gyda chyfanswm o 1,134 o ymwelwyr.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

21 : DATGANIAD BLYNYDDOL AC ALLDRO Y PROSIECT GWYRDD AR GYFER 2019/20

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Blynyddol nas archwiliwyd drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 cyn y dyddiad cau statudol sef 31 Mai 2020. Gofynnir i'r Cydbwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol nas archwiliwyd ac, ar ôl ei gymeradwyo, bydd y ddogfen ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio a'i chyflwyno wedyn i Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal archwiliad allanol o'r datganiad hwn.

Mae Rheoliad 14 yn nodi y gall cyrff llywodraethu lleol llai (y rhai sydd ag incwm a gwariant blynyddol o dan £2,5 miliwn) baratoi eu cyfrifon ar ffurf Datganiad Blynyddol sy'n cymryd lle'r rhwymedigaeth i lunio Datganiad Cyfrifon Llawn.

Mae Tabl 1 isod yn dangos cymhariaeth rhwng yr alldro yn 2019/20 a'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. Mae hyn yn tynnu sylw at alldro gwariant gros o £142,485, gostyngiad o £101,175 o'i gymharu â'r gyllideb gwariant gros 19/20 wreiddiol o £243,660. Ar ôl cynnwys yr ad-daliad Cyfraniad Partner o £50,000 (£10,000 i bob partner) £51,175 yw'r tanwariant net ar gyfer 2019/20.

Tabl 1: Crynhoi Sefyllfa Fonitro 2019/20

	2019/20 Cyllideb £	**2019/2020 Alldro £**	**2019/20 Amrywiant £**
Tîm y Project	182,178	153,433	-28,745
Cyflenwadau a Gwasanaethau	23,470	11,030	-12,440
Pwyllgor a Gwasanaethau Cymorth	8,760	8,165	-595
Ymgynghorwyr Allanol	50,120	0	-50,120
Cynlluniau wrth gefn	20,000	0	-20,000
Cyfraniad Organeg	-40,868	-30,143	10,725
Gwariant Gros	**243,660**	**142,485**	**-101,175**
Cyfraniadau Partner	**-185,000**	**-135,000**	**50,000**
Gwariant Net	**58,660**	**7,485**	**-51,175**
Dyraniadau (o) / i Gronfa'r Cyd-bwyllgor	**-58,660**	**-7,485**	**51,175**

Balans Cronfa'r Cydbwyllgor a Amcanestynnir ar 31.03.2020		**323,863**	

Mae'r amrywiant yn bennaf oherwydd tanwariant a adroddwyd yn flaenorol i'r Cydbwyllgor yn adroddiad monitro mis 7 yn enwedig tanwariant oherwydd y diffyg gwariant yn erbyn y cyllidebau wrth gefn ac ymgynghorwyr allanol, yn ogystal ag arbedion sy'n gysylltiedig â throsiant staff ac oedi wrth recriwtio. O ganlyniad i hyn, lleihawyd y gwariant a amcanestynnwyd ar gyfer y gyllideb o Gyfrif Cronfa Wrth Gefn y Cydbwyllgor o £58,660, i £7,485. Balans y cyfrif wrth gefn ar 31 Mawrth 2020 yw £323,863 bellach a bydd yr opsiynau ar gyfer defnyddio elfen o'r gronfa wrth gefn hon yn cael eu cyflwyno'n gyntaf i Fwrdd Rheoli'r Contract ac yna'r Cydbwyllgor fel rhan o'r adroddiad ar gyllideb 2021/22 fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol.
Cofnododd tîm y prosiect danwariant o £28,745, gyda'r amrywiant yn adlewyrchu oedi wrth recriwtio a nodwyd uchod gyda nifer o staff Asiantaeth wedi eu recriwtio dros dro i gyflenwi'n rhannol swydd Gweinyddydd y Prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r swydd hon bellach wedi'i llenwi ac roedd gan Dîm y Prosiect nifer lawn o staff yn arwain i 2020/21.
Yr amrywiadau sylweddol eraill a nodwyd yn Nhabl 1 yw'r Ymgynghorwyr Allanol a'r darpariaethau Wrth Gefn â'r danwariant sy'n adlewyrchu na fu unrhyw ofyniad i ddefnyddio'r cyllidebau hyn ym mlwyddyn ariannol 2019/20.

PENDERFYNWYD:

I. I nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.
II. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol, ac felly awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Datganiad Blynyddol ar ran y Cydbwyllgor, a'i gyflwyniad dilynol i Swyddfa Archwilio Cymru i gychwyn archwiliad 2019/20.

22 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W GADARNHAU